OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 1010 (Cy. 208)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23 (Llanddulas) i Gyffordd 22 (Hen Golwyn), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018

Gwnaed	*11 Medi 2018*
Yn dod i rym	*17 Medi 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23 (Llanddulas) i Gyffordd 22 (Hen Golwyn), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 17 Medi 2018.

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)** neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Medi 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin neu'r gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. (1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(i) mynd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(i) mynd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r ffordd ymuno a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth lletach na 3.2 metr gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

Ataliadau Dros Dro

11. Mae darpariaethau Rheoliad 8 o Reoliadau Ffordd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984(**3**) wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r gwaharddiadau a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

12. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 8, 9 a 10 yn weithredol.

Cymhwyso

13. (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynnau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

14. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

(**3**) O.S. 1984/1719.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Medi 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwrthlif Dros Dro

Y darn o gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas) hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o Bont yr Enfys (Llanddulas).

ATODLEN 2

Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

Y bwlch yn y llain ganol yn y man croesi gorllewinol sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r dwyrain o Bont yr Enfys (Llanddulas) hyd at bwynt 400 metr i'r dwyrain o Bont yr Enfys (Llanddulas).

Y bwlch yn y llain ganol yn y man croesi dwyreiniol sy'n ymestyn o bwynt 480 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas) hyd at bwynt 330 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas).

ATODLEN 3

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23 (Llanddulas) o'r gylchfan i'r A547 hyd at y pwynt y mae'n uno â phrif gerbytffordd yr A55.

ATODLEN 4

Terfyn Cyflymder 30 mya neu 40 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 21 (Bae Colwyn), hyd at ganolbwynt Cyffordd 23A (Pen-sarn).

ATODLEN 5

Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd sy'n ymestyn o'r terfyn cyflymder 50/70 mya parhaol wrth Bont yr Enfys (Llanddulas) hyd at ganolbwynt Cyffordd 23A (Pen-sarn).

ATODLEN 6

Gwahardd Goddiweddyd

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o ddiwedd y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn) am oddeutu 3.5 cilomedr hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin o'r gilfan tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23 (Llanddulas) tua'r gorllewin am oddeutu 3.9 cilomedr.

ATODLEN 7

Cyfyngu ar led cerbydau 3.2 metr neu'n lletach

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at ddiwedd y trwyniad yn y man y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).

Y darnau o'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy), Cyffordd 18 (Cyffordd Llandudno), Cyffordd 19 (Llandudno), Cyffordd 20 (Brompton Avenue), Cyffordd 21 (Bae Colwyn) a Chyffordd 22 (Hen Golwyn).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad dechrau'r gilfan tua'r gorllewin oddi ar y gerbytffordd tua'r gorllewin i'r dwyrain o Gyffordd 24 (Abergele) hyd at y man y mae'r ffordd ymuno tua'r gorllewin yn uno â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

Y darnau o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Abergele) a Chyffordd 23a (Pen-sarn).